

## Diwrnod Afalau Cas-gwent

Ddydd Sul, 29 Hydref, roedd Neuadd Cas-gwent yn gartref i nawfed Diwrnod Afalau'r dref pan oedd dros 60 o wahanol fathau o afal i'w gweld i ddathlu un o hoff ffrwythau Cas-gwent.

Yn ogystal ag arddangosfa o afalau a dyfwyd yn lleol, roedd stondinau, gemau, cystadlaethau, adloniant cerddorol ac arddangosfa ar sut i wasgu afalau a gwneud seidr.

Cafwyd cystadleuaeth i dorri'r darn hiraf o groen o un afal, ac roedd y buddugol yn anhygoel 3.7m, cwis heriol i adnabod mathau o afal o luniau a gweithgareddau i blant yn cynnwys gwneud teclynnau i fwydo adar ac anifeiliaid o afalau.

I'r cogyddion brwd roedd cystadleuaeth coginio afalau ar gyfer naill ai bwdin neu saig sawrus gyda gwobrau ariannol.

Roedd dros ddwsin o afalau lleol ar gael mewn gwerthiant dewis a dethol a daeth honno i ben wedi gwerthu dros 350kg ar brisiau dipyn is na rhai'r archfarchnad.

Mwynhad gydag afalau i'r teulu cyfan.

Roedd Mike Porter, yr arbenigwr ar adnabod afalau o Rwydwaith Afalau'r Gororau ac awdur y 'Welsh Marches Pomona' wrth law i roi cymorth i'r trigolion lleol oedd wedi dod ag afalau i gael eu henwi a chael gwybod mwy amdanynt.

Dywedodd llefarydd ar ran y Neuadd Ymarfer: "Yn y canrifoedd a fu, roedd Cas-gwent yn enwog am flodau'r pren afalau yn y gwanwyn ac yna cynhaeaf o afalau ardderchog, nifer ohonyn nhw'n cael eu gwneud yn seidr.

Gan ddechrau yn 2008, plannodd Cyngor Tref Cas-gwent a *Transition Chepstow* bron i 200 o goed afalau i ail-greu perllannau cymunedol drwy'r dref, ac mae llawer o'r rheiny yn dwyn ffrwyth erbyn hyn.

Bu'r flwyddyn hon yn ffrwythlon iawn gyda llawer o'r coed afalau yn gwegian o dan bwysau'r cnwd. Mae Diwrnod Afalau yn ddathliad o'r perllannau cymunedol yn y dref."

Cafwyd hefyd ddiwrnod gwneud sudd ddydd Sadwrn, 28 Hydref i'r rheiny oedd â llawer iawn o afalau i'w prosesu a gofynnwyd i'r rhai a ddaeth i hwnnw ddod ag afalau a chynwysydion i fynd â'r sudd gyda nhw.

Yn gyfrifol am Ddiwrnod Afalau Cas-gwent mae'r Neuadd Ymarfer, Cyngor Tref Cas-gwent a Transition Chepstow.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Cynghorydd Ned Heywood, 07899 868 591 neu 01291 624836.